# Annwyl Katrin

*(ar dy benblwydd yn ddeuddeg oed, Rhagfyr 2002)*

Bywyd dynol sydd yn gymleth,
Er mor sanctaidd, er mor ddrud.
Golwg plentyn ydyw'r gorau,
Gwyn y gwêl y cyw y byd.

Bellach dyfid dithau'n henach,
Gweli lwydni ambell fan,
Aneglurder, diffyg deall,
Salwch ein dynoliaeth wan.

Ond yn fuan cei di gyfle –
Siawns i fod, i greu, i fyw.
Bydd agored, bydd garedig,
Welid di mai bendith yw.

Trafferth ddaw o bryd i'w gilydd –
Tristwch dyn mewn du a gwyn,
Hawdd anghofio egwyddorion,
Ond bydd wrol – dal yn dynn!

Baich dros dro yw'r holl waith cartref
Baich gormodol, heb 'run os.
Hel cydbwysedd, gwna jyst ddigon,
Dangos iddynt pwy yw'r bos!

*Dymbldôr* gynghorodd *Harri*:
Dawn naturiol sydd yn talu,
Ond pwysicach penderfynnu!

Paid â phoeni am y dyrfa,
Hidia dim am nerth y lli',
Gwranda, 'styria, penderfynna,
Dilyn di dy drywydd di.

Cariad mam a thad sydd drylwyr,
Fflam fythbythol, melys wîn.
Bydd hyderus – Byddwn lawen
Os wyt wîr i thi dy hun.